Lesley Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

13 Rhagfyr 2019

Annwyl Lesley,

**Egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit**

Diolch am eich ymateb i'n hadroddiad, *Egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit*, a drafodwyd gennym yn ein cyfarfod ar 4 Rhagfyr. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol ysgrifennu atoch i egluro nifer o faterion mewn perthynas â'n hargymhellion, a gofyn i chi ymhelaethu ar eich ymateb i eraill.

**Argymhelliad 1**

Rydych yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod Cymru yn parhau i adeiladu ar ei safonau amgylcheddol yn hytrach na sefyll yn llonydd, sef yr hyn a awgrymir gan ddull gweithredu "peidio â chaniatáu dirywiad". Byddai cynnwys "peidio â chaniatáu dirywiad" fel egwyddor graidd ychwanegol yn golygu y byddai angen gosod *safon ofynnol*. Ni fyddai hyn yn atal Llywodraeth Cymru rhag mynd ymhellach, fel y nodwyd yn ein hadroddiad

**Argymhelliad 6**

Yn eich llythyr, dyddiedig 21 Awst 2019, gwnaethoch ddweud wrthym eich bod eisoes wedi cytuno â Llywodraeth y DU i gael set gyson o egwyddorion amgylcheddol. Ar sail hynny, gwnaethom ofyn am ragor o fanylion gennych am natur y cytundeb. Er i chi dderbyn ein hargymhelliad, rydych yn nodi eich bod yn ystyried dull cydweithredol o ymdrin ag egwyddorion amgylcheddol a fydd yn sicrhau set gyson o egwyddorion ledled y DU. Mae'n parhau i fod yn aneglur beth yr ydych wedi'i gytuno, a yw'n gyfystyr â set gyson o egwyddorion a beth fydd yr egwyddorion hynny.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
0300 200 6565

**1. A allwch chi roi rhagor o fanylion am y cytundeb â Llywodraeth y DU i gael set gyson o egwyddorion amgylcheddol?**

**Argymhelliad 7**

Er gwaethaf adroddiadau gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru eu bod yn barod i gydweithio ar ddulliau llywodraethu posibl ar gyfer y DU gyfan, roedd y model llywodraethu a nodwyd ym Mil Amgylchedd y DU, a gyflwynwyd yn sesiwn flaenorol Senedd y DU, ar gyfer Lloegr yn unig. Er ein bod yn cydnabod y gallai fod cyfleoedd i weinyddiaethau'r DU gydweithio heb fod angen sefydlu corff ar gyfer y DU gyfan, byddai'n dda cael cadarnhad gennych a yw hynny wedi'i ddiystyru fel opsiwn.

**2. A allwch egluro a ydych wedi diystyru sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol ar gyfer y DU gyfan?**

**Argymhellion 14 a 15**

Nodwn o'ch ymateb y bydd swyddogaethau adrodd Comisiwn yr UE yn cael eu trosglwyddo i gyfraith ddomestig os bydd y DU yn ymadael â'r UE. Mae'n parhau i fod yn aneglur i bwy y bydd yn ofynnol i weinyddiaethau'r DU adrodd ar weithredu deddfwriaeth amgylcheddol sy'n deillio o'r UE, er enghraifft, y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

**3. A allwch egluro sut y mae gofynion adrodd yr UE wedi'u haddasu, yn benodol, pa newidiadau a wnaed i sicrhau trefniadau domestig priodol ar gyfer adrodd ar weithredu deddfwriaeth amgylcheddol sy'n deillio o'r UE?**

**Argymhellion 19 a 20**

Credwn ei bod hi'n bwysig i ni egluro nad ydym yn dadlau dros fodel llywodraethu sy'n "dibynnu'n llwyr ar fesurau cosbol megis dirwyon", fel y gwnaethoch awgrymu yn eich ymateb. Yn wir, yn ein hadroddiad, *"rydym yn croesawu cynigion Llywodraeth Cymru y bydd y corff llywodraethu newydd yn gallu ceisio datrys materion diffyg cydymffurfio trwy weithdrefnau anffurfiol cyn dilyn gweithdrefnau ffurfiol a chamau gorfodi"*.

At hynny, rydym yn pwysleisio pa mor bwysig ydyw i'r *"corff llywodraethu newydd fod ag ystod o offer gorfodi credadwy ar gael iddo"*. Credwn na ddylai Llywodraeth Cymru ddiystyru dirwyon fel offeryn gorfodi ar hyn o bryd. Mae Argymhellion 19 a 20 yn adlewyrchu hyn. Rydym wedi nodi'n glir y dylid ymgynghori ar unrhyw gynigion ar gyfer system ddirwyon. Dylid defnyddio dirwyon fel dewis olaf, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd o dan system yr UE.

**Argymhelliad 25**

Nodwn eich bod wedi cytuno ar ddull o reoli cwynion i'w fabwysiadu os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb ymadael. Rydym yn cydnabod efallai nad ydych mewn sefyllfa eto i rannu gyda ni fanylion y mesurau dros dro yr ydych yn bwriadu eu rhoi ar waith. Serch hynny, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am y dull y cytunwyd arno.

**4. A allwch chi roi rhagor o fanylion am y dull yr ydych wedi cytuno arno ar gyfer rheoli cwynion os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb ymadael?**

**Yn olaf, byddem yn croesawu diweddariad ar ganfyddiadau'r Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid ar Lywodraethu Amgylcheddol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.**

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r materion uchod erbyn **Dydd Gwener 24 Ionawr 2020**.

Yn gywir,

**Mike Hedges AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.